# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 26 Chwefror 2009

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyfran y swyddi a fydd yn swyddfeydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd yng Nghyffordd Llandudno, y disgwylir iddynt gael eu llenwi drwy adleoli gweithwyr o swyddfeydd eraill Llywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ53452)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Mae'n debyg y bydd y targed o ail-leoli 525 o swyddi i swyddfa newydd Cyffordd Llandudno yn cael ei gyflawni, a chaiff 130 o'r swyddi hyn eu symud o Gaerdydd. Ni fyddwn yn gwybod union gyfran y cyflogeion presennol a fydd yn symud gyda'u swyddi tan 6 mis cyn i'r adeilad agor. Os bydd staff y trefnir eu bod yn ail-leoli o swyddfeydd eraill yn dewis peidio â symud gyda'u swydd bydd cyfleoedd i recriwtio'n lleol.

**Chris Franks (Canol De Cymru):** Pa drafodaethau diweddar y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Chabinet Cyngor Rhondda Cynon Taf ynghylch y setliad i lywodraeth leol? (WAQ53469)

**Y Prif Weinidog:** Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yw'r Gweinidog sy'n gyfrifol am y setliad llywodraeth leol. Ymgynghorodd â CLlLC ac arweinwyr awdurdodau lleol ar setliad llywodraeth leol dros dro 2009-10. Ymatebodd arweinydd Rhondda Cynon Taf i'r ymarfer ymgynghori ar 5 Tachwedd. Ystyriwyd yr ymateb hwn a'r ymatebion eraill a gafwyd cyn cyhoeddi'r setliad llywodraeth leol terfynol ar 10 Rhagfyr.

## Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru'n dyrannu unrhyw gyllid penodol i hyfforddi gweithwyr adeiladu i gael gwared ar asbestos yn ddiogel? (WAQ53506) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau***

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt):** Mae cael gwared ar asbestos yn cael ei ystyried yn un agwedd ar gael gwared ar gemegion peryglus a deunydd gwenwynig. Nid yw APADGOS yn darparu arian penodol ar gyfer hyfforddiant ym maes cael gwared ar asbestos gan ei fod yn ffurfio rhan o'r amodau cydymffurfio ag Iechyd a Diogelwch ac felly fe'i hystyrir yn hyfforddiant statudol. Mae'r gwaith sylfaenol o gael gwared ar sylweddau wedi'i gynnwys mewn Fframweithiau Prentisiaeth a hyfforddiant NVQ arall, ac felly dan yr amgylchiadau hyn darperir arian yn anuniongyrchol. Mae arian hefyd ar gael i gwmnïau adeiladu sydd am hyfforddi eu cyflogeion i gael gwared ar asbestos yn ddiogel drwy Sgiliau Adeiladu - y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer y diwydiant adeiladu. Gall ariannu amrywio o £27 fesul cyflogai fesul hyfforddiant i hyd at £35 fesul cyflogai fesul hyfforddiant ac mae'n rhaid dilyn rhaglen strwythuredig. Mae Cymdeithas y Contractwyr Gwaredu Asbestos (ARCA) yn rhedeg 15 o gyrsiau penodol ar gael gwared ar abestos ar hyn o bryd, ac mae pob un o'r rhain wedi'i gymeradwyo gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a'i ariannu gan Sgiliau Adeiladu.

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Pa ymgyrchoedd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u rhedeg yn y ddwy flynedd diwethaf i godi ymwybyddiaeth am beryglon asbestos yn y sector adeiladu yng Nghymru? (WAQ53507) ***Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.***

**Jane Hutt:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sefydlu partneriaethau gyda nifer o sefydliadau allweddol gyda rolau ym maes codi ymwybyddiaeth o beryglon asbestos, gan gynnwys yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, Asiantaeth yr Amgylchedd, Undebau Llafur a'r Cynghorau Sgiliau Sector. Yn ystod 2008, cynhaliodd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ymgyrch i godi

ymwybyddiaeth o asbestos o'r enw 'Y Llofrudd Cudd'. Ym mis Tachwedd 2008 cynhaliodd Sgiliau Adeiladu ddigwyddiadau o'r enw 'Gweithio'n Dda Gyda'n Gilydd' yng Ngogledd Cymru (Bae Colwyn) ac yn Ne Cymru (Aberhonddu a Newton). Roedd y grwpiau hyn wedi rhoi cyfle i gyflogwyr o fewn y maes adeiladu gymryd rhan mewn gweithdai rhyngweithiol gydag awdurdodau lleol, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) a nifer o bartneriaid eraill, ac wedi rhoi gwybodaeth i gynadleddwyr am wella eu gwybodaeth am ddiogelwch yn y gweithle. Fel rhan o Wythnos Arddangos Adeiladu (yn dechrau 2il Mawrth 2009) cynhelir dau ddigwyddiad tebyg yng Ngogledd a De Cymru, gyda chodi ymwybyddiaeth o asbestos a gwastraff peryglus eto'n thema allweddol. Cynhelir digwyddiadau'r Wythnos Arddangos gan Sgiliau Adeiladu a'i sefydliadau partner.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am leihau biwrocratiaeth yn y sector addysg? (WAQ53468)

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt):** Mae defnyddio adnoddau yn effeithiol ac yn effeithlon wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn bwysicach nag erioed. Nodwyd ein cynlluniau effeithlonrwydd yn Cyflawni'r Cysylltiadau: Gwireddu'r Weledigaeth ac rydym wedi parhau i adeiladu ar yr agenda hon ym maes addysg a hyfforddiant. Gan adeiladu ar fentrau fel sefydlu'r Panel Cynghori ar Lwyth Gwaith Ysgolion, rwyf wedi cyflwyno'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion a Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol i ysgogi ymyriadau cyfalaf mwy effeithiol. Gyda phartneriaid, rydym yn datblygu camau i integreiddio gwaith ysgolion, Sefydliadau Addysg Bellach, Sefydliadau Addysg Uwch a darparwyr ôl-16 preifat a gwirfoddol i raddau mwy er mwyn diwallu anghenion dysgwyr a chyflogwyr. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid fel fforwm i gwtogi fiwrocratiaeth mewn rhaglenni cyfredol ac rydym yn gweithio, gyda llywodraeth leol, ystyried sut y gallwn sicrhau bod dulliau ariannu yn cwtogi ar weinyddu tra'n cynllunio, er enghraifft, ar gyfer creu cynllun grant unigol, sef Cymorth, ar sail nifer o gynlluniau grant blaenorol. Rydym yn parhau i weithio gyda CLlLC ar drosglwyddo ffrydiau arian i'r Grant Cynnal Refeniw wrth i weithgareddau gael eu prif ffrydio.

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Pa amcangyfrif y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o nifer yr athrawon ar gyfer y byddar a fydd yn gweithio mewn ysgolion yng Nghymru ym mhob un o'r pum mlynedd nesaf, yn ôl y disgwyl? (WAQ53508)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Sawl athro ar gyfer y byddar sy'n gweithio ar hyn o bryd mewn ysgolion yng Nghymru? (WAQ53509)

**Jane Hutt:** Caiff y wybodaeth ddiweddaraf am athrawon plant byddar ei chadw gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru a ddywedodd fod 119 o athrawon cymwysedig ar gyfer plant byddar yng Nghymru wedi'u cofrestru ag ef ar 23 Chwefror 2009. Mae hyn yn gynnydd o 11 ers i Janet Ryder ofyn cwestiwn tebyg ar 6 Mehefin 2008 (WAQ51812).

Yn 2004, cynhaliwyd archwiliad o wasanaethau nam ar y synhwyrau ledled Cymru. Awgrymodd canlyniadau'r archwiliad fod anghysondeb o ran polisïau ymyrryd a'r cymorth sydd ar gael i blant a phobl ifanc â namau ar y synhwyrau. Ategodd ymhellach y ffaith bod y sefyllfa hon yn debyg o waethygu gyda nifer cynyddol o athrawon sy'n meddu ar Gymhwyster Gorfodol (CG) ar gyfer addysgu plant â nam ar y synhwyrau yn cyrraedd oedran ymddeol o fewn y ddeng mlynedd nesaf.

Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, yn 2005 gwnaethom gyhoeddi cyfarwyddiadau ar gyfer awdurdodau lleol o'r enw 'Safonau Ansawdd ar gyfer Gwasanaethau Addysgol i Blant a Phobl Ifanc â Nam ar y Synhwyrau.' Mae'r safonau ansawdd wedi'u cymeradwyo gan Estyn, a hynny'n arbennig fel adnodd hunanwerthuso i'w ddefnyddio gan AALlau. Bwriedir cynnal gwerthusiad allanol o'r defnydd a wneir o'r safonau yn ddiweddarach yn 2009/2010.

Rydym hefyd wedi gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Cymru, Casnewydd i sicrhau bod cyrsiau Cymhwyster Gorfodol (CG) newydd ar gael i athrawon sy'n gweithio gyda disgyblion â nam ar eu clyw a disgyblion â nam ar eu golwg. I gydnabod y diffyg o ran nifer yr athrawon sy'n ymafael â'r CG, pennwyd cymorth cyllidol ychwanegol o £192,000 gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer y tair blynedd academaidd o fis Medi 2006 - £48,000 ar gyfer 2006/2007, £98,000 ar gyfer 2007/2008 a £48,000 ar gyfer 2008/2009.

Ym mis Medi 2006, cofrestrodd 24 o athrawon i ddilyn y Diploma Ôl-raddedig - 12 ar gyfer nam ar y clyw a 12 ar gyfer nam ar y golwg. Pan ddaw'r cwrs cyfredol i ben ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2008/2009, disgwylir y bydd yr hyfforddiant a gynhelir gan Gasnewydd wedi ychwanegu 24 o staff cymwys at y gweithlu.

Yn ogystal, mae arian ar gael o hyd o fewn Gweithgaredd 4 y Gronfa Ysgolion Gwell i alluogi athrawon i ymgymryd â'r hyfforddiant arbenigol pwysig hwn. Mae'n bwysig cydnabod bod hwn yn agwedd ar DPP a bod yr hyfforddiant ar gyfer athrawon unigol sydd am ymgymryd â'r cymhwyster proffesiynol hwn. Yn 2005, er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cwrs, gwnaethom roi taflen i bob ysgol yng Nghymru o'r enw "Arweiniad i Arbenigaeth" a amlinellodd fuddiannau'r fath hyfforddiant.

Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn amcangyfrif galw yn y dyfodol ar gyfer mathau penodol o athrawon. Mae gorchymyn statudol ar awdurdodau addysg lleol i sicrhau y trefnir darpariaeth addysgol briodol i bob un o'u disgyblion, gan gynnwys y rhai â nam ar y clyw.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus

**Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Yn dilyn yr ateb i WAQ53335, a wnaiff y Gweinidog roi manylion sut mae'r Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn yn y tabl wedi cael ei wario wedyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a faint o'r cyfanswm sydd wedi cronni er 1999-00 sydd yn dal heb ei wario? (WAQ53448)

**Y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus (Andrew Davies):** Mae Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn yn deillio o Amcangyfrifon Ategol Seneddol y Gaeaf neu'r Gwanwyn ac fe'i hychwanegir at Gronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn, sydd yna'n cael eu dyrannu i flaenoriaethau strategol a meysydd o bwysau sy'n dod i'r golwg. Ceir manylion am ddefnyddio Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn a'r defnydd o gronfeydd cyffredinol wrth gefn fel rhan o'r cynigion cyllidebol ategol perthnasol yn ystod y flwyddyn.

Ymhlith yr enghreifftiau o ddyraniadau pwysig yn ystod blynyddoedd diweddar mae £70 miliwn o Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn sydd bron yn arian parod yn 2005-06 a 2006-07 a ddefnyddiwyd i gyfrannu at gostau'r broses o leihau amseroedd aros cleifion, a £97 miliwn nad yw'n arian parod a ddefnyddiwyd i dalu am ddibrisiant y Rhwydwaith Cefnffyrdd. Mae dyraniadau cyfalaf wedi cynnwys £10 miliwn ar gyfer adeiladu'r Senedd, £10 miliwn i wella seilwaith yn y GIG a £10 miliwn ar gyfer prosiectau gwella TG.

Rhoddwyd manylion am stociau dros dro o £164 miliwn o refeniw a £224 miliwn o gyfalaf Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn yn y Papur Gwyn Alldro Gwariant Cyhoeddus ar gyfer 2007-08.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i wneud asesiad manwl o'r adnoddau y mae eu hangen i weithredu canllawiau ffrwythlondeb NICE yn llawn? (WAQ53500)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i WAQ53456.

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** Pryd y mae'r Gweinidog yn rhagweld y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n adolygu ei safbwynt cyllidebol yng nghyswllt triniaethau anffrwythlondeb a gyllidir yn gyhoeddus? (WAQ53501)

**Edwina Hart:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i WAQ53457.

**Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru):** Pa ffactorau y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru'n eu hystyried a allai arwain at adolygu ei pholisi tanffrwythlondeb 2006? (WAQ53502)

**Edwina Hart:** Byddai tystiolaeth wedi'i phrofi sy'n dangos bod y polisi comisiynu cyfredol ar gyfer triniaeth IVF yn anghyfartal neu'n aneffeithiol yn glinigol neu o ran cost yn debygol o arwain at adolygiad.

**Lynne Neagle (Tor-faen):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad meintiol o'r amseroedd ymateb gwirioneddol ar gyfer pob galwad categori A a gymerodd dros 30 munud i ymateb? (WAQ53504)

**Edwina Hart:** Ni chedwir y wybodaeth hon yn ganolog.

**Lynne Neagle (Tor-faen):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r cyfarpar llywio â lloeren, systemau tracio lleoliad cerbydau a therfynellau data symudol newydd a gyhoeddwyd ar 18fed Chwefror? (WAQ53505)

**Edwina Hart:** Ar hyn o bryd mae rheolwyr WAST yn llunio cynllun gweithredu ar weithredu'r systemau llywio â lloeren a chanfod cerbydau newydd. Rwyf wedi gofyn i'r Ymddiriedolaeth i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi a rhoi syniad i mi o sut a phryd y caiff y systemau eu cyflwyno cyn gynted ag y bydd ei chynllun gweithredu wedi ei gwblhau.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

**Chris Franks (Canol De Cymru):** Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Chabinet Cyngor Rhondda Cynon Taf ynghylch y setliad i lywodraeth leol. (WAQ53475)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons):** Rwy'n ymgynghori â CLlLC ac arweinwyr awdurdodau lleol bob blwyddyn ar y setliad llywodraeth leol. Ymatebodd arweinydd Rhondda Cynon Taf i'r ymarfer ymgynghori ar setliad llywodraeth leol dros dro 2009-10 ar 5 Tachwedd. Ystyriwyd yr ymateb hwn a'r ymatebion eraill a gafwyd cyn cyhoeddi'r setliad llywodraeth leol terfynol ar 10 Rhagfyr.